


### Crynodeb o Adroddiad Ymchwil gan:

## Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

# Cymorth Cyngor Caerdydd i Drigolion gyda Chostau Byw

## Ionawr 2023

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS


CYNNWYS .......... 2
RHAGAIR Y CADEIRYDD .......... 3
CYLCH GORCHWYL .......... 4
Y DULL A DDEFNYDDIWYD .......... 5
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL .......... 7
Cyd-destun .......... 7
Galw .......... 9
Hygyrchedd .......... 11
Gweithio mewn Partneriaeth .......... 13
Ymwybyddiaeth Gyhoeddus .......... 15
ARGYMHELLION .......... 16
Cyd-destun .......... 16
Galw .......... 16
Hygyrchedd .......... 17
Gweithio mewn Partneriaeth .......... 18
.......... 19
**AELODAU'R PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL** .......... 19
**AC OEDOLION** .......... 19

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'r DU yng nghanol argyfwng costau byw. Mae prisiau tanwydd a bwyd cynyddol, ochr yn ochr â llog cynyddol a chyfraddau chwyddiant yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd ariannol enbyd. Mae costau byw yn y DU wedi bod yn cynyddu ers dechrau 2021. Gyda chefndir o alw cynyddol ac ansicrwydd parhaus, mae'r darlun yn gymhleth ac eang.

I gydnabod natur eang y pwnc, roedd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion y cyngor am adolygu sut rydym ni fel cyngor yn lleddfu'r pwysau, ac yn cefnogi pob cohort o fewn cymunedau Caerdydd. Gan gadw natur y pwnc mewn cof yn barhaus, roedd Aelodau'n gytûn bod angen i'r Ymchwiliad ddarparu cymorth amserol â ffocws i'r cyngor yn ei adolygiad o wasanaethau.

Mae'r holl argymhellion a gynigiwyd yn yr Ymchwiliad hwn wedi'u seilio ar y dystiolaeth a dderbyniwyd a safbwyntiau gwerthfawr yr holl randdeiliaid dan sylw. Fe'u cyflwynir i'r Cabinet mewn ymgais i ategu ethos y maes gwasanaeth o 'ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i holl drigolion Caerdydd', waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol.

Mae Aelodau'r Ymchwiliad wedi parhau i fod yn ystyriol o'r pwysau ariannol a roddir ar awdurdodau lleol a'r cyd-destun presennol y mae'r Ymchwiliad hwn yn seiliedig arno, ac felly, mae'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn ymwneud i raddau helaeth â gwneud y mwyaf o adnoddau cyfredol, cryfhau cefnogaeth allanol a chaniatáu mwy o hyblygrwydd o ran darparu gwasanaethau. Mae Aelodau'r Ymchwiliad yn cytuno bod swyddogion a phersonél gweithredol sy'n rhan o'r gwaith hwn yn meddu ar angerdd ac ymrwymiad cryf tuag at ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth gorau posibl i drigolion Caerdydd. Mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn amhrisiadwy ac, o ystyried y tebygolrwydd y bydd y galw'n parhau ar yr un lefel, neu hyd yn oed yn cynyddu, byddwn i ac Aelodau'r Ymchwiliad yn annog yn gryf i'r tîm gael ei warchod a'i ehangu lle bynnag y bo modd.



Ar fy rhan i ac Aelodau'r Ymchwiliad, hoffwn ddiolch o galon i'r holl randdeiliaid a fu'n rhan o'r gwaith hwn am rannu eu persbectif a'u gwybodaeth werthfawr yn agored a chynnig eu hamser a'u cymorth parhaus. Diolch arbennig hefyd i Aelodau'r Ymchwiliad, am eu hamser, eu hymroddiad, a'u cyfraniadau amhrisiadwy. Bu'n bleser gweithio gyda'r holl randdeiliaid a fu'n rhan o'r Ymchwiliad hwn.

**Y Cynghorydd Margaret Lewis -** *Cadeirydd yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen, Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.*

## CYLCH GORCHWYL

Adolygodd y grŵp gorchwyl gwmpas drafft ar gyfer yr Ymchwiliad yn ei gyfarfod cyntaf a
chytuno ar gylch gorchwyl:

*I gynorthwyo'r cyngor yn ei ymateb i'r argyfwng costau byw, bydd yr Ymchwiliad hwn yn:*

- *Adolygu gwasanaethau'r cyngor sy'n gysylltiedig â'r mater a'r camau arfaethedig sydd ar gael i drigolion Caerdydd.*
- *Archwilio cwmpas, cylch gwaith, galw, capasiti a chydlyniad y gwasanaethau sydd ar gael.*
- *Asesu, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, ymwybyddiaeth gymunedol a hygyrchedd y gwasanaethau a chynlluniau sydd ar gael.*

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan y grŵp gorchwyl i wneud canfyddiadau ac argymhellion allweddol i'r Cabinet mewn perthynas â threfniadau'r cyngor ar gyfer cefnogi preswylwyr gyda chostau byw.

I gyflawni hyn, derbyniodd y grŵp gorchwyl dystiolaeth gan y tystion canlynol:

| Dyddiad y Cyfarfod | Tystion |
|---|---|
| **Cyfarfod 1 – 7 Tach 2022**<br>*'Gosod y cyd-destun'* | **Y Cynghorydd Peter Bradbury** (Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc)<br>**Y Cynghorydd Lynda Thorne** (Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau)<br>**Helen Evans** (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyngor Caerdydd, Tai a Chymunedau)<br>**Hayley Beynon** (Rheolwr Gweithredol – Cynghori)<br>**Sam Gane** (Rheolwr Hybiau Ardal)<br>**Khalid Osman** (Cydlynydd i Mewn i Waith)<br>**Emma Dennett** (Rheolwr Asesu Budd-daliadau) |
| **Cyfarfod 2 – 17 Tach 2022**<br>*'Arsylwi gwasanaethau a chwrdd â staff rheng flaen a chleientiaid – Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd'* | Staff rheng flaen ac aelodau o'r cyhoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau. |
| **Cyfarfod 3 – 18 Tach 2022**<br>*'Bwrdd crwn: Galw gan y cyhoedd, Ymwybyddiaeth a Mynediad'* | **Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro**<br>**Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro**<br>**Banc Bwyd Caerdydd**<br>**Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>**Cymorth i Fenywod yng Nghymru** |

| | |
|---|---|
| | **Diverse Cymru**<br>**Gypsy & Traveller Wales**<br>**Riverside Advice**<br>**Llywodraeth Cymru** |
| **Cyfarfod 4 – 28 Tach 2022**<br>*'Arsylwi gwasanaethau a chwrdd â staff rheng flaen a chleientiaid – Hyb Butetown, Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Pen-y-lan, Hyb y Tyllgoed'* | Staff rheng flaen ac aelodau o'r cyhoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau. |
| **Cyfarfod 5 – 9 Rhag 2022**<br>*Cyfarfod Crynhoi* | Aelodau'r Ymchwiliad |

Y prif ganfyddiadau a'r argymhellion yw barn unfrydol y grŵp gorchwyl.
Mae manylion yr holl dystiolaeth a ystyriwyd gan y grŵp gorchwyl ac a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn ar gael i'w harchwilio ar gais.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Dymuna Aelodau'r Ymchwiliad gofnodi bod yr holl randdeiliaid a ymgysylltodd â'r ymchwiliad hwn yn meddu ar angerdd ac ymrwymiad cryf tuag at ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth gorau posibl i drigolion Caerdydd gyda chostau byw.

Mae tîm yr Ymchwiliad am ganmol rheolwyr a staff Gwasanaethau Cynghori'r Cyngor, sy'n arwain ac yn darparu gwasanaethau hanfodol yn erbyn cefndir o ansicrwydd parhaus a galw cynyddol. Dyma pam y mae Aelodau'r Ymchwiliad am leisio barn o blaid diogelu ac ehangu'r gwasanaeth hwn lle bynnag y bo modd.

Daeth y Canfyddiadau Allweddol isod i law yn dilyn pum cyfarfod gan gynnwys ymweliadau â hybiau'r Cyngor a bwrdd crwn gyda chynrychiolwyr allanol.

## Cyd-destun

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyngor Caerdydd yn cynnwys y timau canlynol:

- Cyngor Ariannol,
- Gwasanaeth i Mewn i Waith a
- Llinell Gyngor.

Gellir cael help gyda chostau byw hefyd drwy Dîm Datrysiadau Tai ac Atal y Cyngor, a'r Tîm Cyswllt Lles. Mae pob tîm yn cynnig cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor, ac arweiniad uniongyrchol ynghylch costau byw ac yn gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau eraill pan fo hynny'n briodol.
**CA1**

Mae timau'r gwasanaeth cynghori i gyd wedi'u lleoli yn Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd ac yn gweithredu gwasanaeth allgymorth, gan ymweld â hybiau a nodwyd a rhai lleoliadau cymunedol eraill ledled Caerdydd ar sail rota. Nid yw cyfyngiadau adnoddau yn caniatáu i'r gwasanaethau cynghori gael presenoldeb cyson ym mhob rhan o'r ddinas. Mae presenoldeb y tîm yn cael ei benderfynu ar sail angen a lle gwyddwn y gallai'r ddemograffeg wynebu risg uwch o dlodi ac incwm isel.
**CA2**

Mae'r tîm cynghori’n gweithredu dull 'Dweud Wrthym Unwaith'. Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr aelodau i’r casgliad fod Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd yn elwa o gael yr holl wasanaethau cynghori o dan yr un to, gan gynnwys presenoldeb cyson gan bartneriaid allanol perthnasol, a oedd yn caniatáu 'dull Dweud Wrthym Unwaith' cadarn. Fodd bynnag, mewn hybiau lleol, nad ydynt yn elwa o gael yr holl wasanaethau o dan yr un to ar yr un pryd, efallai y bydd angen cyfeirio unigolyn sydd angen cymorth at dimau neu wasanaethau cymorth eraill; yn dibynnu ar lefel y gefnogaeth sydd ei hangen.

**CA3**

Cafodd Aelodau’r Ymchwiliad wybod gan staff y cyngor fod llawer o gynlluniau cymorth ariannol ar gael gan Lywodraethau Cymru a’r DU i leddfu pwysau costau byw unigolion; fodd bynnag, yr her yw gweithio o fewn y fiwrocratiaeth sy'n amgylchynu’r cynlluniau hynny er mwyn sicrhau bod staff yn gallu dosbarthu arian yn gyflym i unigolyn.

**CA4**

Cafodd Aelodau’r Ymchwiliad wybod y gall cymorth neu gefnogaeth ariannol gyflym fod yn anodd weithiau oherwydd y rheoliadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyngor o ran y broses o wneud penderfyniadau.

Dyma rai o’r enghreifftiau a ddarparwyd i Aelodau'r Pwyllgor, lle byddai symleiddio proses fewnol y cyngor yn cael ei groesawu:

- Gostwng y trothwy pan mae'n rhaid i benderfyniad gael eu gwneud gan y panel cynlluniau dewisol costau byw
- Ailddyrannu gwasanaethau allgymorth yn y ddinas
- Geiriad ar ddogfennau cyhoeddi

**CA5**

Nododd yr Uwch Reolwyr a ymgysylltodd â'r ymchwiliad mai dyma'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau ar hyn o bryd:

- Codi ymwybyddiaeth o gefnogaeth y Cyngor i denantiaid yn y sector rhentu preifat.

- Mae ansicrwydd ynglŷn â beth fydd yn digwydd ar ôl i fentrau a arweinir gan y llywodraeth ddod i ben,  gyda phryder sylweddol y bydd hyn yn arwain at ymchwydd yn y galw gyda'r timau'n methu â chynnig rhyw lawer o gefnogaeth.
- Cynaliadwyedd adnoddau – mae llawer o'r gwasanaethau cynghori'n cael eu hariannu gan grant, sy'n golygu bod y staff sy'n darparu gwasanaethau ar gontractau dros dro, blynyddol; mae'r diffyg sicrwydd cyflogaeth hwn yn creu lefel uchel o bryder i aelodau o staff.
- Mae angen mwy o adnoddau a chyllid er mwyn caniatáu gwasanaethau mewn mwy o rannau o'r ddinas. Mae Aelodau'r Ymchwiliad yn cydnabod, oherwydd diffyg cyllidebol y cyngor, efallai y bydd angen cyllid allanol, ac mae gan y gwasanaeth ysgrifennwr ceisiadau penodol sy'n cefnogi gyda hyn.

**CA6**

Galw

Ers dechrau Covid-19, mae timau cynghori'r cyngor, a gweithwyr allanol a fu'n ymwneud â'r ymchwiliad, wedi gweld cynnydd sylweddol a pharhaus yn y galw. Bu cynnydd nodedig hefyd mewn pobl hŷn sy'n ceisio cymorth, a'r rhai sydd heb brofi caledi ariannol erioed o'r blaen.

**CA7**

Rhagwelir yn eang y bydd y galw am gefnogaeth sy'n gysylltiedig â chostau byw yn parhau ac yn parhau'n uchel.  Oherwydd hyn, mae gwasanaethau cynghori'r cyngor yn faes lle mae adnoddau digonol a buddsoddiad parhaus gan y cyngor yn hanfodol.

**CA8**

Mae cynnydd wedi bod yng nghymhlethdod yr achosion sy'n cael eu cyflwyno i staff, gyda staff rheng flaen, a gweithwyr allanol, yn cynghori'r cyngor fod angen iddo gryfhau ei gymorth iechyd meddwl i drigolion.

**CA9**

Wedi i Aelodau'r Ymchwiliad gael gwybod bod bwlch yng nghynnig y cyngor o ran cymorth iechyd meddwl, cadarnhawyd bod yr holl staff sy'n darparu gwasanaethau yn cael hyfforddiant iechyd meddwl: fodd bynnag, dywedodd un aelod o staff mewn hyb lleol wrth Aelodau ei fod heb dderbyn unrhyw hyfforddiant iechyd meddwl hyd yma.

**CA10**

Y gyfradd ateb nodweddiadol ar gyfer y Llinell Gyngor yw 9 eiliad. Ar adegau prysur yn Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd, gall preswylwyr fod yn aros hyd at 2-3 awr i weld ymgynghorydd. Y rheswm a briodolwyd i'r amser aros hir yw'r amser y mae'n ei gymryd i ddarparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â chostau byw (1 awr ar gyfartaledd).

**CA11**

Yn ystod yr Ymchwiliad, ymwelodd Aelodau â chanolfan nad yw'n derbyn gwasanaethau allgymorth. Dywedodd staff yn y ganolfan wrth yr Aelodau:

- Nid yw eu cynnig presennol yn ateb y galw a byddent yn elwa o gael gwasanaethau allgymorth, neu sefydliadau trydydd sector
- Nid ydynt yn gallu rhoi cymorth cyfrinachol i breswylwyr oherwydd diffyg cyfleusterau - byddent yn croesawu ardal breifat i roi cyngor cyfrinachol i drigolion

**CA12**

Dywedodd hybiau eraill yr ymwelwyd â hwy, sy'n derbyn gwasanaethau allgymorth, y byddent yn elwa o fwy o ddarpariaeth allgymorth oherwydd y galw.

**CA13**

Roedd gweithwyr allanol a ymgysylltodd ag Aelodau'r Ymchwiliad yn teimlo nad yw eu darpariaeth yn cael ei defnyddio'n llawn gan y cyngor. Roedd rhai gweithwyr allanol sy'n darparu gwasanaethau allgymorth yn hybiau'r cyngor yn rhannu'r farn hon - nid oes apwyntiadau'n cael eu trefnu ar gyfer eu gwasanaethau pan maen nhw'n bresennol mewn hybiau lleol. Priodolwyd hyn i ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff y cyngor o'u presenoldeb.

**CA14**

Er mwyn ymdopi â'r galw, mae'r gwasanaeth yn adolygu gwasanaethau'n barhaus i benderfynu ar yr angen am adnoddau, gydag adnoddau'n cael eu hadleoli o fewn timau os oes angen. Yn ogystal, mae rheolwyr yn gwneud ceisiadau parhaus a rhagweithiol am gyllid allanol i ehangu eu darpariaeth ymhellach, gyda llawer o'r gwasanaethau cynghori hefyd yn elwa o wirfoddolwyr sy'n helpu i roi cymorth.
**CA15**

I reoli galw cynyddol, cynghorodd gweithwyr allanol eu bod wedi defnyddio cynigion hybrid – gan gynnig cymorth wyneb-yn-wyneb i unigolion neu sesiynau rhithwir ar sail apwyntiad.
**CA16**

## Hygyrchedd

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn hygyrch i bob grŵp, cafodd aelodau'r ymchwiliad wybod:

- Bod ymgyrch dosbarthu taflenni ar y gweill gan ddefnyddio cysylltiadau â Chlybiau Pensiynwyr, Fforymau Tenantiaid y Cyngor, Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Tîm Adnoddau Cymunedol, Pryd ar Glud, Canolfannau Dydd, Clybiau Cinio, Neuaddau Bingo, Ysbytai, Ysgolion a Phyrth Rhieni, Rhwydwaith Gofalwyr, Gofalwyr Di-dâl, Fforwm Gofal, Teleofal ac addoldai.
- Bydd DigiVans sy'n hysbysebu gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu gosod mewn ardaloedd lle mae'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn yn isel.
- Mae Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol a staff o hybiau/canolfannau dydd yn cael eu hannog i ledaenu'r gair am y cymorth sydd ar gael.
- Mae gan staff fynediad at adnodd 'Llinell Iaith' - cadarnhaodd staff rheng flaen a ymgysylltodd â'r ymchwiliad hwn ei bod yn gweithio'n dda, ond roedd diffyg ymwybyddiaeth o Wasanaeth Cyfieithu Cymru.
- Ar adeg yr ymchwiliad, roedd staff y gwasanaethau cynghori'n gallu siarad dros 29 o ieithoedd cymunedol.
- Mae gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael wedi'i dosbarthu i Aelodau Etholedig, gyda'r cais iddynt ledaenu'r gair gyda thrigolion

**CA17**

Cydnabu’r holl randdeiliaid efallai na fydd rhai unigolion yn dymuno gofyn am gymorth oherwydd stigma a balchder personol; mae newid canfyddiad cymdeithas ynghylch cael mynediad at help yn rhwystr allweddol y mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â hi, yn enwedig drwy waith ei swyddogion cymunedol ac ymgysylltu.
**CA18**

Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod yr iaith ar gyhoeddiadau’r Cyngor yn gywir - er enghraifft defnyddiwch y term hawl yn lle budd-dal a gwneud cais yn lle hawlio. Gallai hyn helpu'n fawr i fynd i'r afael â'r rhwystr a grëwyd gan stigma a chanfyddiad.
**CA19**

Er mwyn gwella mynediad o fewn carfannau penodol fel yr henoed neu rai sydd ag anableddau, mae’r tîm cynghori yn:

- Cynnal sesiynau galw heibio mewn hybiau lleol a chanolfannau cymunedol
- Cysylltu â grwpiau lleol
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant parhaus
- Gwneud cais am grantiau i ehangu darpariaethau a chynigion gwasanaeth

**CA20**

Ar gyfer wardiau yng Nghaerdydd sydd heb hyb, mae’r gwasanaeth yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol a phartneriaid allanol i gynnig sesiynau galw heibio mewn lleoliadau cymunedol. Dywedodd gweithwyr allanol sy'n gweithio gyda'r cyngor ar ddigwyddiadau cymunedol o'r fath wrth Aelodau fod y digwyddiadau'n llwyddiannus iawn.
**CA21**

Lleisiodd y mwyafrif o randdeiliaid a fu'n rhan o'r Ymchwiliad hwn y manteision o ddarparu gwasanaethau i unigolion wyneb-yn-wyneb, gan eu bod yn teimlo bod hyn yn caniatáu rhyngweithio cryfach a chefnogaeth ddilynol.
**CA22**

Pwysleisiodd rhai gweithwyr allanol a fu'n rhan o'r Ymchwiliad fod yn rhaid cydnabod nad hybiau yw'r unig lwybr at ymgysylltiad cymunedol, er eu bod yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso hyn. Mae'n rhaid i'r cyngor ddibynnu llai ar unigolion yn mynd i hybiau i gael gwasanaethau lleol. Rhaid bod hyblygrwydd o ran darparu gwasanaethau, gyda'r cyngor yn cynnig amrywiaeth o wahanol ffyrdd i gael mynediad at wasanaethau, er enghraifft trwy ymweliadau cartref a mwy o bresenoldeb mewn adeiladau cyhoeddus a chynigion digidol.

**CA23**

Pwysleisiodd sefydliadau allanol perthnasol i Aelodau fod y rhai o gymunedau BAME yn tueddu i fod yn fwy cyfforddus yn ymgysylltu â phobl y maent yn ymddiried ynddynt, megis arweinwyr ffydd neu sefydliadau diwylliannol. Mae'n hanfodol felly fod y cyngor yn sefydlu perthynas gadarn gyda ffigyrau o'r fath er mwyn sicrhau bod ymddiriedaeth yn cael ei throsglwyddo.

**CA24**

Tynnodd uwch reolwyr y cyngor a gweithwyr allanol sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaethau i ffwrdd o gymunedau lleol gan ei bod yn bosib na fydd llawer o drigolion eisiau cael eu gweld yn defnyddio gwasanaethau yn agos at le maen nhw'n byw oherwydd embaras. Fodd bynnag, wrth ymgysylltu â staff sy'n gweithio mewn hybiau lleol, pwysleisiwyd pa mor bwysig yw hi fod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau’n lleol, gan ei bod hi’n bosib nad yw preswylwyr yn gallu teithio oherwydd problemau symudedd. Yn ogystal, pwysleisiodd gweithwyr allanol efallai na fydd rhai unigolion yn gallu fforddio trafnidiaeth, ac efallai na fydd unigolyn sy'n delio â thrawma neu broblem iechyd meddwl yn gallu ymweld ag amgylchedd prysur fel Hyb y Llyfrgell Ganolog neu’n meddu ar yr hyder i aros am wasanaethau am gyfnod hir.

**CA25**

## Gweithio mewn Partneriaeth

Cydnabu’r holl randdeiliaid fod gwaith partneriaeth effeithiol, a phroses atgyfeirio gadarn rhwng y cyngor a gweithwyr allanol, yn allweddol. Gan gydnabod hyn, mae

gan y cyngor gysylltiadau cryf â nifer o gyrff allanol ac mae hefyd wedi sefydlu Tasglu Costau Byw gyda 15 partner allanol:

- Cyngor ar Bopeth
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyngor 3ydd Sector Caerdydd
- Age Connect Caerdydd
- CLILC
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- National Energy Action
- Banc Bwyd Caerdydd
- NYTH
- Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro
- NUS Cymru
- Cynrychiolwyr o Gymdeithasau Tai Caerdydd
- Llamau
- Coleg Caerdydd a’r Fro
- Dŵr Cymru

**CA26**

Cadarnhaodd y mwyafrif o weithwyr allanol a ymgysylltodd â'r Ymchwiliad hwn fod ganddynt berthynas waith gref â’r awdurdod; byddai'r rhai nad oedd ganddynt berthynas gref o’r fath yn croesawu cydberthynas, gan gynnwys y gallu i gynnig eu gwasanaethau mewn hybiau.

**CA27**

Mae menter 'Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol' Llywodraeth Cymru yn cynnwys aelodau o bartneriaid trydydd sector a Chyngor Caerdydd, sy’n eu galluogi i rannu gwybodaeth a sgiliau. Fodd bynnag, nid oedd gan rai o'r gweithwyr allanol a fu'n rhan o'r Ymchwiliad hwn fynediad i'r fforwm ac nid oeddent yn derbyn ei wybodaeth chwaith.

**CA28**

Er mwyn ysgogi cyd-destun cymunedol cryf a gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, mynegodd llawer o weithwyr allanol y byddent yn croesawu gweld y cyngor yn hwyluso rhwydwaith partneriaeth a fyddai'n galluogi rhannu gwybodaeth a meithrin cydberthnasau'n lleol.
**CA29**

## Ymwybyddiaeth Gyhoeddus

Mae'r ymgyrch gyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â chefnogaeth y Cyngor o ran cymorth costau byw yn cynnwys:

- Y cyfryngau cymdeithasol a digidol
- Hysbysebion ac erthyglau Wales Online
- Hysbysebion radio ar Capital FM a Spotify
- Posteri yng Nghanol y Ddinas - gan gynnwys sgrin ddigidol ar Heol y Porth.
- DigiVans
- Llythyrau'n cael eu hanfon i bob cartref ledled y ddinas fesul cam yn manylu ar y gefnogaeth sydd ar gael gan y cyngor
- Taflenni wedi'u hargraffu a thaflenni digidol yn cael eu dosbarthu i bob hyb ar draws y ddinas, a'u rhannu gyda sefydliadau partner
- Taflenni'n cael eu darparu i weithwyr rheng flaen y cyngor i'w cynnig i'w cleientiaid, gyda rhai taflenni wedi eu cyfieithu i ieithoedd cymunedol fel Arabeg, Pwyleg, Bengaleg, Somalieg ac Wcreineg.
- E-daflenni'n cael eu dosbarthu i restrau rhanddeiliaid y tîm cynghori, sy'n cynnwys dros 120 o sefydliadau, i'w dosbarthu ymhellach.
- Hyrwyddo gwasanaethau wyneb-yn-wyneb yn Dewi Sant 2 ar 4 Tachwedd a 16 Ionawr 2023.

**CA30**

Cadarnhaodd uwch reolwyr y cyngor a gweithwyr allanol na ddylid codi ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy ddull digidol yn unig, gan nad yw hyn yn ymarferol i rai carfanau. Am y rheswm hwn, mae'r cyngor yn defnyddio llwybrau mwy traddodiadol hefyd, fel anfon taflenni a llythyrau i bob cartref yng Nghaerdydd yn rhoi gwybod i bobl am wasanaethau. **CA31**

Byddai gweithwyr allanol yn croesawu mwy o ddigwyddiadau partneriaeth rhyngddyn nhw a'r cyngor, fel 'siopau un stop' sy'n cynnig cymorth mewn adeiladau cyhoeddus. **CA32**

## ARGYMHELLION

Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr Ymchwiliad hwn, cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion canlynol i'w hystyried gan y Cabinet:

Cyd-

**A1.** Er mwyn sicrhau nad oes oedi mewn cymorth i drigolion, cynnal adolygiad o'r holl brosesau mewnol perthnasol sy'n ymwneud â materion strategol a gweithredol, gan nodi lle gall symleiddio ddigwydd. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal mewn ymgynghoriad â rheolwyr a staff rheng flaen perthnasol. Yn benodol, dylai'r adolygiad ystyried y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â:

- Cynlluniau Dewisol Costau Byw
- Adleoli gwasanaethau cynghori
- Deunydd cyhoeddi

**CA4, CA5, CA6, CA7**

Galw

**A2.** Oherwydd y galw presennol, a'r disgwyliad i'r galw barhau, buddsoddi mewn cyfleoedd cyflogaeth mwy hirdymor ar gyfer aelodau staff cynghori. Gellid cyflawni hyn drwy gynnydd mewn swyddi parhaol, neu pan fo contractau dros dro'n cael eu defnyddio, drwy osgoi sail blwyddyn-wrth-flwyddyn lle bynnag y bo modd.
**CA2, CA6, CA7, CA11**

**A3.** Er mwyn cryfhau cymorth iechyd meddwl y cyngor, ehangu'r gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Yn ogystal, ystyried cofrestru 'pencampwyr iechyd meddwl' ar draws y timau a all sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau iechyd meddwl lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth gweithwyr allanol a'r hyfforddiant sydd ar gael.
**CA7, CA8, CA9, CA10**

**A4.** Cyflwyno targed i fonitro amseroedd aros trigolion mewn hybiau am gymorth costau byw. Dylai'r targed osod amser aros ymarferol a bydd yn helpu i fonitro lefelau'r galw a dangos tystiolaeth os oes angen adnoddau ychwanegol. Er mwyn sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni ac nad yw amseroedd aros hir yn digwydd, neu eu bod yn cael eu lleihau, gellid cynnig gwasanaeth amgen megis apwyntiadau rhithwir neu wyneb-yn-wyneb ar adegau penodol.
**CA7,8,11,14,16,23,25**

## Hygyrchedd

**A5.** Er mwyn cryfhau'r model lleol a'r hyn a gynigir, cynnal adolygiad. Yn benodol, dylai'r adolygiad ystyried:

- Ehangu cyfleusterau hyb, fel mwy o Hybiau'n cynnig 'ffonau am ddim' i breswylwyr a'r gallu i ddefnyddio ffonau i gael mynediad at unrhyw rifau rhadffon.
- Sicrhau bod pob hyb yn cynnig ardaloedd cyfrinachol i breswylwyr gael cymorth.
- Ehangu mynediad i sefydliadau llawr gwlad gael presenoldeb dros dro mewn hybiau lleol, gan gynnig cefnogaeth sy'n gysylltiedig â chostau byw, yn enwedig gan y rhai sy'n arbenigo mewn cynrychioli grwpiau o'r boblogaeth sydd â lefelau isel o ymgysylltu.
- Y trefniadau rhannu gwybodaeth mewnol yn holl adrannau'r cyngor o ran y cymorth allanol sydd ar gael; gan gynnwys sut mae gwybodaeth am y diwrnodau y mae gweithwyr allanol yn bresennol mewn hybiau lleol yn cael ei chylchredeg.**CA3, CA7, CA8, CA11, CA12, CA13, CA14, CA18, CA20, CA21, CA25, CA27, CA32**

**A6.** Cynnal mwy o ddigwyddiadau dros dro, mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, o fewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor a'r rhai y tu allan i reolaeth y cyngor lle mae nifer yr ymwelwyr yn uchel, fel archfarchnadoedd lleol. Rhaid i ardaloedd heb hybiau cyngor hefyd gael ystyriaeth flaenllaw wrth benderfynu ar leoliadau.
**CA3, CA7, CA8, CA11, CA12, CA13, CA20, CA21, CA23, CA25, CA27, CA32**

**A7.** Ystyried gwella hyblygrwydd gwasanaethau drwy gynnig ymweliadau cartref neu apwyntiadau rhithwir (lle y bo'n briodol).
**CA15, CA16, CA23, CA25**

**A8.** Fel ffordd o fynd i'r afael â chanfyddiad a stigma cyhoeddus, parhau i sicrhau yr osgoir geiriau fel budd-daliadau a hawlio o fewn pob cyhoeddiad sy'n ymwneud â chostau byw - yn hytrach dylid defnyddio geiriau fel mynediad a hawl.
**CA18, CA19**

**A9.** I ysgogi ymdeimlad o ymddiriedaeth rhwng y cyngor ac unigolion o gefndiroedd lleiafrifol, ac i gryfhau'r allgymorth a'r ymgysylltu â phob carfan yng nghymunedau Caerdydd, sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu o fewn Timau Cynghori Caerdydd.
**CA17,18,24**

## Gweithio mewn Partneriaeth

**A10.** Er mwyn cryfhau cynnig i drigolion ledled y ddinas, archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Partneriaeth Cymdogaeth sy'n caniatáu i bartneriaid rannu gwybodaeth am gymorth lleol. Dylid dysgu gan y Tasglu Costau Byw ond dylid manteisio ar yr aelodaeth ehangach, gan gynnwys:

- Sefydliadau llawr gwlad a thrydydd sector amrywiol
- Arweinwyr cymunedol

**CA26,27,28,29**

# AELODAU'R PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION



Y Cynghorydd Ali Ahmed



Cynghorydd Bablin Molik
**(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Saleh Ahmed



Y Cynghorydd Mike Ash-Edwards



Y Cynghorydd Claudia Boes



Y Cynghorydd Sue Lent



Y Cynghorydd Margaret Lewis



Y Cynghorydd Peter Littlechild



Y Cynghorydd Mary McGarry

Gwasanaeth Craffu Cyngor Caerdydd,
Ystafell 283, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
© 2023